Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu swyddogaethau a rolau ym maes llywodraethu ysgolion**

**DYDDIAD** **23 MEDI 2014**

**GAN** **Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Ar 8 Tachwedd 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Leighton Andrews, Ddatganiad Ysgrifenedig ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd ganddo i ymchwilio i faterion llywodraethu ysgolion. Cylch gwaith gwreiddiol y Grŵp oedd ystyried pa mor addas at y diben oedd y fframwaith llywodraethu ysgolion yng Nghymru a gwneud argymhellion yn seiliedig ar y casgliadau a ddeilliodd o adolygiad y grŵp.

Cafodd gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Ysgolion ei adael ar ei hanner tra bod Adolygiad Hill yn mynd rhagddo. Ailalwyd y Grŵp yn ffurfiol ar 4 Ebrill 2013 a pharhaodd i ystyried y fframwaith llywodraethu yng nghyd-destun y newidiadau a awgrymwyd yn Adroddiad Hill.

Cafwyd 31 o argymhellion yn adroddiad y Grŵp, y mae llawer ohonynt yn yr arfaeth neu'n mynd rhagddynt eisoes fel rhan o adolygiad arfaethedig Llywodraeth Cymru o fframwaith deddfwriaethol llywodraethu ysgolion. Cyhoeddwyd copi o'r adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru heddiw ac maent ar gael yn:

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schoolfundingandplanning/schoolgov/school-governance-task-and-finish-group-report/?skip=1&lang=cy

Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n cwmpasu llywodraethu ysgolion wedi bodoli ers 2005, ac nid ystyrir ei fod yn hyblyg nac yn galluogi llywodraethwyr ysgolion i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i fentrau cenedlaethol - mae'n rhy ddiffiniedig a chyfyngedig. Er bod argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn helpu i ymdrin â hyn i ryw raddau, nid yw'n mynd yn ddigon pell. Bydd fy Adran yn parhau i ystyried rôl cyrff llywodraethu wrth bennu pa gamau pellach sydd eu hangen. Sicrhaf fod Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Grŵp am ei adroddiad.